Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penparc

**Tre-main**
**Aberteifi**
**SA43 1SQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Penparc

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Penparc |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 94 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 79 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 6.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 20.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 49.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/09/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/03/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Penparc yn ysgol ofalgar, hapus a chroesawgar. Mae staff, rhieni a'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol ac maent yn teimlo'n gryf ei bod yn fraint cael bod yn aelod o'r gymuned ddysgu glós. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel, yn enwedig o ran hybu lles a sicrhau bod disgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Mae llawer o'r disgyblion yn frwdfrydig am eu gweithgareddau dysgu ac maent yn siarad am eu profiadau gyda chyffro.

Mae'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd ac oedolion gyda pharch a chwrteisi sy'n cefnogi'r rhan fwyaf i ymddwyn yn dda. Maent yn gwerthfawrogi bod staff yn ofalgar ohonynt a'u bod yn darparu cyfleoedd dysgu ysgogol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae disgyblion yn awyddus i gyflawni'n dda mewn amgylchedd ddysgu gynhwysol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm sy'n cynnig ystod dda o brofiadau diddorol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae gan athrawon berthynas weithio fuddiol â'r disgyblion ac maent yn adnabod anghenion dysgu a phersonol bob un yn dda. O ganlyniad, mae'r staff cyfan yn darparu cymorth a chynhaliaeth bwrpasol er mwyn cefnogi'r disgyblion i wneud cynnydd.

Mae athrawon yn datblygu medrau disgyblion trwy holi treiddgar ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt drafod eu dysgu. Gyda chefnogaeth athrawon, mae disgyblion yn dod yn fwyfwy annibynnol wrth lunio meini prawf llwyddiant ar gyfer eu tasgau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu adborth sy'n adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol bob tro. At ei gilydd, prin yw cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau yn annibynnol am beth maent am ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ble mae tegwch a llesiant ar gyfer pob disgybl yn flaenllaw. Mae agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd heintus y pennaeth yn hybu cydweithio effeithiol ymysg arweinwyr, staff a chymuned ehangach yr ysgol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a meysydd sydd angen eu datblygu. Maent yn cael eu cefnogi gan dîm ymroddgar o lywodraethwyr sy'n rhannu'r weledigaeth, ac yn datblygu eu cyfrifoldebau i gefnogi a herio'r ysgol yn briodol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod adborth gan staff yn darparu’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn effeithiol

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau cyfathrebu sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn ynganu'n glir a gyda goslef bwrpasol wrth iddynt gyflwyno gwybodaeth am bwysigrwydd bwyta'n iach i'w cyfoedion mewn gwasanaeth ysgol. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eraill ac yn ymateb gan ddefnyddio iaith a thôn llais addas. Maent yn dangos parch a chwrteisi at eu cyfoedion ac oedolion bob tro.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol ar draws yr ysgol. Maent yn dangos diddordeb a brwdfrydedd am lyfrau o oedran ifanc. Mae disgyblion y dosbarth Derbyn yn gwrando'n astud ar storïau ac yn ymateb yn briodol i oedolion am y cynnwys. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn darllen yn eglur ac yn ofalus, gan ddefnyddio dealltwriaeth ffonolegol i ddarllen geiriau anghyfarwydd yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen llyfrau Saesneg yn ddeallus a gyda rhugldeb cynyddol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn maent yn ei ddarllen ac yn trafod cymeriadau a chyd-destun storïau yn hyderus. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae disgyblion yn llai hyderus yn darllen testunau Cymraeg, sydd yn ei dro yn arafu eu cynnydd.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn arbrofi â gwahanol ddulliau o wneud marciau ac yn cychwyn ffurfio llythrennau'n gywir. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn dangos ymwybyddiaeth o ffurf brawddeg ac yn atalnodi'n gynyddol gywir. Maent yn defnyddio cymariaethau'n effeithiol wrth ysgrifennu brawddegau am ddinosoriaid, er enghraifft wrth ddweud bod y brontosawrws yn dal fel jiráff. Wrth symud trwy'r ysgol, mae llawer yn adeiladu ar eu medrau'n  bwrpasol ac yn ysgrifennu'n gynyddol estynedig ar draws ystod o ffurfiau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ysgrifennu llythyr at y Prif Weinidog i geisio dwyn ei berswâd i hyrwyddo'r defnydd o geir trydanol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg yn gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cyfrif hyd at 10 yn hyderus ac yn arbrofi â defnyddio bondiau rhif. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer yn datrys problemau yn ymwneud ag amserlenni trenau yn fedrus. Mae'r disgyblion hynaf yn adnabod ac ysgrifennu rhifau tu hwnt i 10 miliwn ac yn cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau cyfansawdd yn hyderus. Ar y cyfan, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn cofnodi niferoedd y gwahanol fathau o gerbydau maent yn eu gweld ar daith o amgylch y pentref. Maent yn cyflwyno'r data ar ffurf siart bar gan ddewis graddfa'r echelinau yn gywir.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn creu pictogramau er mwyn cofnodi sut mae aelodau'r dosbarth yn teimlo, er enghraifft. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn creu cyflwyniad amlgyfrwng i

rannu gwybodaeth am eu hoff awdur tra bod disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio taenlen i gofnodi data a llunio graff llinell i gymharu tymheredd misol Cymru a Qatar. Fodd bynnag, nid yw medrau digidol ehangach ychydig iawn o ddisgyblion yn datblygu'n ddigon cadarn.

Mae medrau creadigol llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cydweithio â phrifardd i gyfansoddi cerdd ar gyfer cystadleuaeth Cwpan y Byd. Yn ogystal, maent yn cymhwyso eu medrau'n dda wrth gydweithio ag arlunydd lleol er mwyn creu murluniau lliwgar sy'n cynrychioli eu dehongliadau nhw o'r hanes lleol.

Mae llawer o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarn at weithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau sesiynau addysg gorfforol ac yn ymroi'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn datblygu eu medrau pêl-droed yn briodol mewn sesiynau gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau pasio. Mae'r disgyblion hynaf yn gwella eu ffitrwydd trwy gyfres o sesiynau gyda phencampwr rhyngwladol, sydd yn ei dro yn hybu eu diddordeb a dwysáu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn teimlo'n hapus o fewn ei naws gynhwysol a gofalgar. Maent yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn dangos parch a gofal at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae mwyafrif y disgyblion yn sgwrsio'n aeddfed ac yn mwynhau rhannu eu profiadau gydag oedolion. Mae bron bob disgybl yn gwybod at bwy i droi os oes unrhyw beth yn eu poeni ac maent yn hyderus bod staff yn ymateb yn briodol i unrhyw bryder. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn yn ystod gwersi ac ar y buarth. Maent yn setlo i weithio'n gyflym yn y dosbarth ac yn cyd chwarae'n frwd yn ystod cyfnodau egwyl. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu'n gydwybodol mewn gwersi. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion yr ysgol ac yn gweithio'n ddiwyd i gwblhau gweithgareddau yn lled annibynnol. Maent yn cydweithio'n dda ag eraill ac yn gwrando'n synhwyrol ar safbwyntiau ei gilydd, er enghraifft wrth drafod p'un a yw'n syniad da cael gwared ar faes chwarae Aberteifi er mwyn adeiladu maes parcio.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi bod athrawon yn dechrau gofyn iddynt am eu barn wrth gynllunio'r gweithgareddau dysgu. Mae'r disgyblion yn y dosbarthiadau hŷn yn mwynhau cyfrannu syniadau a chwestiynau at y mapiau meddwl sy'n cael eu rhannu â'u rhieni. Mae hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref yn llwyddiannus.

Mae disgyblion sy'n aelodau o'r Cyngor Ysgol a'r amrywiol bwyllgorau eraill yn cyfrannu eu syniadau yn dda mewn ystod briodol o weithgareddau. Maent yn dylanwadu ar benderfyniadau ysgol fel pa offer chwaraeon mae disgyblion yn mwynhau eu defnyddio yn ystod amseroedd egwyl, er enghraifft. Yn ddiweddar, mae'r Dreigiau Doeth wedi llwyddo sicrhau cyfanswm o arian gan Gyngor Y Ferwig i osod offer sain drwy'r ysgol er mwyn codi statws cerddoriaeth a'r iaith Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n gyson at elusennau amrywiol ac mae ganddynt syniadau pendant ynghylch pwy ddylai elwa o'u cyfraniadau. Er enghraifft, penderfynodd y Cyngor Lles wneud cyfraniad i fanc bwyd lleol yn dilyn gwasanaeth Nadolig gan holl blant yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn lleol ac yn genedlaethol. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion moesegol, gwybodus sy'n arddangos empathi ac aeddfedrwydd wrth siarad am eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn trafod effaith ymarfer corff ar eu hiechyd yn wybodus. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig fel unigolion ac yn awyddus i gydweithio fel grŵp mewn ystod o brofiadau dysgu.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu ei chwricwlwm i gyd-fynd ag egwyddorion a bwriadau'r Cwricwlwm i Gymru. Trwy gydweithio'n bwrpasol ag ystod eang o bartneriaid, mae arweinwyr yn datblygu eu gweledigaeth ar gyfer cynnig cwricwlwm sy'n darparu ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol, ac yn diwallu anghenion llawer o'r disgyblion. Mae lles, cydraddoldeb a hawliau'r disgybl yn ganolog i'r weledigaeth hon.

Mae staff yn cydweithio â'r disgyblion i gyd-gynllunio ystod briodol o themâu a gweithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb ac ysgogi llawer o'r disgyblion. Er enghraifft, ar gychwyn themâu, mae disgyblion yn awgrymu gweithgareddau diddorol maen nhw am eu cyflawni. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn frwdfrydig am eu dysgu ac yn ymroi'n bwrpasol i'w tasgau. Mae'r berthynas weithio gadarn rhwng staff a disgyblion a'r amgylchedd ddysgu gynhwysol yn elfennau nodedig o'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n bwrpasol ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth Derbyn yn trafod gwahanol gyfuniadau o ddau rif sydd â chyfanswm o naw yn hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddarllen ystod o destunau fel rhan o waith thematig y dosbarth, ynghyd â darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau amrywiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn datblygu eu medrau meddwl a digidol yn effeithiol wrth gynnal ymholiad i ddarganfod perthynas rhwng taldra a maint esgid plant. Maent yn creu graffiau'n gywir i gyflwyno eu data a'u helpu i ddod i gasgliad.

Mae athrawon yn darparu profiadau diddorol i'r disgyblion ieuengaf ddysgu yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth Derbyn yn datblygu eu medrau creadigol wrth ddefnyddio briciau a phren i adeiladu lloches i'r dinosoriaid. Mae'r athrawon yn atgyfnerthu'r dysgu yn briodol wrth gynllunio profiadau pwrpasol i'r disgyblion hynaf. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn mireinio eu medrau rhifedd wrth ddarganfod enghreifftiau o onglau lem ac aflem ar wrthrychau sydd wedi eu lleoli o amgylch y campws.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i hybu hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft wrth ddathlu Diwrnod Miwsig Cymru a chefnogi tîm pêl-droed Cymru yn

ystod cystadleuaeth Cwpan y Byd. At ei gilydd, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau siarad Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn siarad Saesneg wrth gyflawni tasgau yn y dosbarth ac wrth sgwrsio â'u ffrindiau mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.

Ble mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon ac oedolion eraill yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol. Maent yn cefnogi anghenion disgyblion yn bwrpasol ac amserol, ac yn datblygu medrau meddwl disgyblion yn effeithiol trwy holi treiddgar. Yn y sesiynau hyn, darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion drafod eu gwaith, er enghraifft wrth iddynt ymateb i feini prawf llwyddiant ar gyfer eu tasgau. Yn yr arferion addysgu llai effeithiol, mae cyflymder cyflwyniadau a gweithgareddau yn rhy araf ac mae athrawon yn dueddol o or-gyfarwyddo'r dysgu. Yn gyffredinol, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth a sut maent yn dysgu. O ganlyniad, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu dysgu, sydd yn ei dro yn llesteirio cynnydd yn eu dysgu.

Mae athrawon yn darparu ychydig o gyfleoedd addas i ddisgyblion ymateb i adborth. Fodd bynnag, mae athrawon yn talu gormod o sylw i gamgymeriadau sillafu a gramadeg yn hytrach nag i agweddau pwysig sy'n berthnasol i'r dasg. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwybod beth sydd angen ei wella mewn gwahanol agweddau o'r gwaith, a sut, yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cyflawni hyd orau eu gallu bob tro.

Mae athrawon yn cynllunio ymweliadau addysgol a phreswyl gwerthfawr i'r disgyblion sy'n atgyfnerthu'r dysgu yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â pharc antur lleol ac mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn manteisio ar brofiadau gwerthfawr yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Mae'r ymweliadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cydweithio a gwydnwch y rhan fwyaf o'r disgyblion.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn adrodd yn glir ar gynnydd disgyblion yn ogystal â meysydd sydd angen iddynt eu datblygu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd yn seiliedig ar egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru yn briodol. Mae hyn yn gosod sail i gymuned ofalgar lle gall bob disgybl ddatblygu a ffynnu. Mae gan y pennaeth a'r athrawon ddiddordeb ac adnabyddiaeth drylwyr o anghenion bob disgybl. Maent yn gosod pwyslais cryf ar gynnig darpariaeth sy'n diwallu anghenion unigol y disgyblion er mwyn eu datblygu'n ddysgwyr cyflawn.

Mae gan arweinwyr systemau effeithiol i fonitro ac olrhain lles a chynnydd disgyblion. Trwy hyn, mae gan staff adnabyddiaeth drylwyr o anghenion lles a dysgu'r disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys llunio map darpariaeth clir, proffiliau un tudalen defnyddiol a chynlluniau datblygu unigol. Maent yn darparu amrywiaeth bwrpasol o raglenni cymorth sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â chefnogi eu lles. Er enghraifft, mae staff yn darparu rhaglen gymorth effeithiol i ddisgyblion sydd ag anghenion emosiynol yn dda er mwyn eu cefnogi i deimlo'n gysurus yn yr ysgol, i hybu ymddygiad da ac i fwynhau eu dysgu. Mae'r pennaeth a'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cydweithio mewn partneriaeth â rhieni

a gydag asiantaethau allanol yn effeithiol, er enghraifft gyda'r tîm iaith a lleferydd arbenigol er mwyn cefnogi medrau iaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu agweddau ysbrydol, moesol a chymdeithasol. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd ac agweddau pwysig fel perthnasoedd iach. Yn ogystal, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gwasanaethau a gweithgareddau dosbarth. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau creadigol trwy greu patrymau 'Rangoli' wrth ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau gwahanol. Mae staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddysgu am faterion moesegol fel cefnogi elusennau lleol a gwarchod yr amgylchedd. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn ymweld â'r garej lleol i drafod buddion gyrru ceir trydanol. Wrth ymgymryd â dathliadau fel 'Diwrnod Rhyngwladol y Menywod', mae staff yn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb yn effeithiol.

Wrth hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion, mae athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr a chyfleoedd pwrpasol iddynt ddathlu eu treftadaeth a'u diwylliant Cymreig. Er enghraifft, mae disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ac yn mynychu'r ganolfan awyr agored. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion mentrus ac hyderus.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion, gan gynnwys rhai o gefndiroedd bregus,  ddatblygu medrau arwain gwerthfawr trwy fod yn aelodau o amrywiaeth o bwyllgorau. Er enghraifft, mae'r Dreigiau Doeth yn annog eu cyfoedion yn bwrpasol i siarad Cymraeg pan fyddant yn chwarae ar y buarth yn ystod amseroedd egwyl. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn teimlo eu bod yn cael cyfle i leisio eu safbwyntiau wrth i oedolion yn yr ysgol wrando ar eu hawgrymiadau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo presenoldeb cyson yn gadarn. Mae'r pennaeth yn monitro presenoldeb yn drylwyr ac yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ac asiantaethau eraill er mwyn cyflawni hyn. Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf ac mae systemau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu lles disgyblion o fewn amgylchedd gynhwysol. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i fod yn hapus a gwneud cynnydd yn eu medrau. Mae'r pennaeth wedi ymgysylltu'n gyson â phartneriaid fel rhieni, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach i greu a rhannu'r weledigaeth. Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn cydweithio'n angerddol i wireddu'r weledigaeth. Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn ymroddgar ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ymdrechion yr ysgol i ddarparu addysg gyflawn a chefnogaeth lles effeithiol i'r disgyblion.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o berfformiad ei hun ac o'r staff. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y targedau uchelgeisiol ar gyfer gwella fel rhan o brosesau rheoli perfformiad athrawon a chynorthwywyr. Mae'r cynnydd yn erbyn y targedau yn cael

ei fonitro'n gyson gan arweinwyr. Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â thanberfformiad yn gadarn.

Mae'r arweinwyr yn creu diwylliant cadarnhaol o hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae cyfleoedd eang iddynt fynychu cyrsiau a hyfforddiant sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'u hanghenion unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Maent yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill ac yn rhannu arferion da yn gyson. Yn dilyn hyfforddiant, mae staff yn rhaeadru'r wybodaeth a'r adnoddau defnyddiol i gydweithwyr.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Mae staff wedi dechrau cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn briodol ac yn cynllunio gweithgareddau perthnasol yn llwyddiannus i godi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Maent yn darparu profiadau amrywiol wrth gefnogi disgyblion penodol er mwyn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod trefniadau hunanwerthuso priodol ar waith er mwyn gwerthuso'r dysgu a'r ddarpariaeth. Mae'r arweinwyr yn gwerthuso safon yr addysgu yn rheolaidd, ac mae'r staff cyfan yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth amrywiol i gasglu a thrafod gwybodaeth berthnasol am gynnydd disgyblion a pherfformiad yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddarlun teg o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Er hyn, nid yw pob gweithgaredd monitro yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Mae cysylltiad perthnasol rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a'r cynlluniau ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella yn rheolaidd ac yn adrodd eu canfyddiadau i'r staff a'r llywodraethwyr yn briodol.

Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Trwy dderbyn a thrafod adroddiadau trylwyr y pennaeth, maent yn dechrau herio arweinwyr am faterion fel olrhain cynnydd llythrennedd disgyblion, er enghraifft. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n gydwybodol, er enghraifft wrth ymweld â'r ysgol i siarad â'r disgyblion am eu gwaith a chraffu ar lyfrau. Fodd bynnag, mae ffocws eu hymweliadau ar adegau yn rhy eang i'w cynorthwyo i herio arweinwyr ar feysydd penodol. O ganlyniad, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth addas o gynnydd a safonau disgyblion, ac am ansawdd yr addysgu. Maent yn trafod y ddarpariaeth ar gyfer bwyta ac yfed yn iach gan sicrhau bod trefniadau priodol ar waith er mwyn hyrwyddo hyn gyda disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus. Mae'r gwariant yn cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau gwella. Mae arweinwyr yn gwrando'n addas ar lais disgyblion ac yn talu sylw i ofynion y cwricwlwm wrth ychwanegu at y ddarpariaeth yn gyson. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i sicrhau bod disgyblion bregus yn cael mynediad cyfartal at brofiadau dysgu gwerthfawr.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau a chysylltiadau buddiol â nifer o sefydliadau lleol. Maent wedi elwa o roddion ariannol gan gynghorau lleol fel Cyngor Y Ferwig a Chyngor Aberteifi er mwyn gwella darpariaeth yr ysgol. Mae ganddynt berthynas gref â'r Cylch Meithrin sydd wedi ei leoli ar yr un safle. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ddarparu profiad gwerthfawr wrth i'r disgyblion ddechau'r ysgol. Mae arweinwyr yn cysylltu'n gynnar â'r rhieni newydd er mwyn rhannu gwybodaeth bwysig am anghenion lles a dysgu disgyblion. Mae hyn yn cefnogi staff i roi trefniadau ar waith a pharatoi'n amserol er mwyn diwallu anghenion disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/05/2023